



INESYDD

Gorff — Awst

PAPUR CYMRAEG
CAERDYDD A'R CYLCH

1980

RHIF 69

CLWB CYMRAEG O'R DIWEDD

Ar ôl blynyddoedd o siarad am y peth, mae cynlluniau pendant ar y gweill bellach i sefydlu Clwb Cymraeg i Caerdydd. O dan gadeiryddiaeth Owen John Thomas, un o brif ysbrydolwyr y cynllun, sefydlwyd Cymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd i osod y fenter ar seiliau cyllidol cadarn, ac eisoes y mae'r arian yn llifo i mewn.

Amcan y Gymdeithas yw sefydlu Clwb hamdden diwylliannol a chymdeithasol Cymraeg ei iaith yng Nghaerdydd. Yn y gorffennol, ffurfiwyd sawl pwyllgor i drafod y syniad o glwb Cymraeg ac edrychwyd ar nifer o adeiladau addas. Ond wrth gwrs, yn y bôn, yr oedd hi'n amhosibl penderfynu ar adeilad, heb sôn am gymryd camrau i'w brynu, heb nac arian nac aelodaeth gref i gefnogi'r syniad.

Y mae CCCC wedi mynd ati o'r cyfeiriad arall i godi'r arian yn gyntaf ac yna, gyda chronfa sylweddol wrth gefn, mynd ati i edrych am adeilad addas. Yn ôl Owen John Thomas, y gobaith yw codi tua £60,000 erbyn diwedd 1981; y mae'r ymateb i'r syniad wedi bod yn dda iawn eisoes, ac y mae'n bosibl y bydd cymaint â £10,000 yn y gronfa cyn cyfarfod agored nesaf y Gymdeithas ym mis Gorffennaf.

Y mae'r syniad yn un uchelgeisiol dros ben. Heb law am y cyfleusterau arferol megis bar, ystafell lle gall grwpiau berfformio ac ati, bwriedir i'r clwb gynneg lluo o atyniadau eraill megis ystafelloedd pwyllgor lle gall gwahanol fudiadau a chymdeithasau Cymraeg gynnal eu cyfarfodydd, darlithiau a chyrtsiau, dosbarthiadau dysgu Cymraeg, a chyfleusterau ar gyfer diddordebau arbenigol megis ffotograffiaeth ac ati, byrddau snwcer, tenis bwrdd a chwaraeon eraill. Y gobaith yw y gall y clwb, yn y

man, ddod yn bencadlys i wahanol fudiadau Cymraeg yng Nghaerdydd, ac yn gaer o Gymreictod yng nghanol y brifddinas.

Yn wir, gwarchod Gymreictod yw diben pennaf y clwb, ac i'r perwyl hwnnw, y mae polisi iaith sylfaenwyr y clwb yn gwbl ddi-gyfaddawd. Yn ol cymal 2(b) o gyfansoddiad darpariaethol y clwb, fe'i sefydlir:

"I roi cefnogaeth i'r iaith Gymraeg wrth roi hwb ymarferol ac ysbrydol i fudiadau a chymdeithasau eraill sydd o les i'r iaith Gymraeg a thrwy ddefnyddio'r iaith Gymraeg fel iaith swyddogol y Clwb; yn cynnal holl gyfarfodydd y Clwb, y pwyllgorau, yr is-bwyllgorau a phob cymdeithas tu mewn i'r Clwb, yn ogystal â phob achlysur arall yn y Clwb, yn yr iaith Gymraeg. Yr iaith Gymraeg fydd iaith pob hysbyseb a rhybudd ysgrifenedig a ddangosir yn y Clwb, neu a ddefnyddir gan y Clwb mewn hysbysebion a rhybuddion cyhoeddus yn y Wasg ac mewn manau eraill. Yr iaith Gymraeg fydd yr iaith a ddefnyddir wrth far y Clwb ac mewn sgrysiâu cyffredin rhwng aelodau a phwy bynnag arall sy'n defnyddio adnoddau'r Clwb o bryd i'w gilydd".

Ychwanega'r sylfaenwyr:

"Teimlir bod angen am bolisi pendant a chryf fel hyn er mwyn sefydlu canolfan wir Gymraeg

lle bydd elfen o orfodaeth fwynhaol i Gymry Cymraeg a dysgwyr ddefnyddio'r iaith. Mae pwysau'r Saesneg mor fawr fel na fyddai polisi llai na hwn yn gymorth i ddysgwyr nac yn ddigon i warchod statws y Gymraeg yn y Clwb. Wedi'r cyfan, cymbelliant y fenter hon yw, creu cymuned Gymraeg gref, yma yn ein prif-ddinas".

Rhoddir sylfaen ariannol gadarn i'r Clwb drwy ddod o hyd i dros 500 o bobl i gyfrannu £100 yr un i'r fenter, gan dalu hynny drwy archeb banc dros y deunaw mis nesaf. Drwy hynny, daw'r bobl hyn yn aelodau "sylfaenol" o'r clwb gyda'r hawl i benderfynu polisi'r clwb yn y dyfodol a'r hawl i bleidleisio ar bob agwedd o drefniadaeth a gweinyddiaeth y clwb a chwestiynau megis pa fudiadau Cymraeg eraill y dylai'r clwb eu cefnogi, beth i'w wneud ag unrwy elw ariannol a wneir, ac ati. Rhedir y clwb fel menter gydwethredol, felly ni ddaw unrhyw elw ohono i unrwy unigolyn; defnyddir unrhyw arian a wneir er lles y clwb ac er lles mudiadau sy'n gweithio er budd yr iaith Gymraeg.

Codir rhyw £10,000 arall oddi wrth ryw fil o aelodau "cyffredinol" a fydd yn talu £10 y pen. Rhydd hynny aelodaeth lawn o'r clwb iddynt, a hawl i ddefnyddio'i holl gyfleusterau, ond ni fydd gan y rhain lais yn rheolaeth y clwb.

Er mor gyffrous yw'r syniad hwn yng nghyd-destun Caerdydd ei hun, y mae iddo bosibiliadau ehangach byth. Breuddwyd Owen John Thomas yw gweld rhwydwaith o glybiau tebyg yn cael eu sefydlu led-led Cymru, sefydliadau cwbl annibynnol ond yn coleddu'r un amcanion â'r clwb a arfaethir ar gyfer Caerdydd. O'u rhedeg yn llwyddiannus, gallai clybiau fel hyn godi cryn dipyn o arian ar gyfer mudiadau

(gw. r. 2.)

Golygyddol

Aeth gwyl ganol haf, sef Gwyl Ifan heibio a bu dathlu llon yn Nantgarw a Chaerffili yn ôl a glywir. Ond digon gaeafol yw'r tywydd economaidd, a braidd oes yna ddiwrnod yn myned heibio heb ei newyddion drwg. Soniwyd fwy nag unwaith ers miscedd lawer am y gwahanol ergydion sydd yn taro.

Erbyn hyn daeth ffigurau allan o Goleg Prifysgol Bangor sy'n cadarnhau'r ffigur o tua 170,000 yn ddiwaith yn y dyfodol agos y soniwyd amdanynt yn y Dinesydd dro yn ôl. Eisoes mae'r ffigur bron yn 100,000, sef 9 y cant o weithwyr Cymru, ac erbyn hyn mae'n glir y bydd polisïau'r llywodraeth yn bygwth bodolaeth p'un ai Llanwern neu Borth Talbot neu'r ddau, heb son am y bygythiad perthynol yn y maes glo.

Ym maes diwylliant, mae'n amlwg fod cryn anniddigrwydd ynglŷn â gwrthgiliad y llywodraeth ym mater y Bedwaredd Sianel, a'r posibilrwydd y bydd i arweinydd Plaid Cymru, y Dr. Gwynfor Evans, ymryddio o Hydref 6ed ymlaen. At hynny, mynegodd 1,500 o bobl eu bwriad i beidio â thalu am eu trwydded teledu. Gwelir hanes un achos yn yr ymgyrch teledu yn y rhifyn hwn.

Faint o'r "troseddwyr" hyn y bydd yn rhaid iddynt fynd i sefyll o flaen "eu gwell", ys dywed yr hen ymadrodd taeogaidd, faint o'n pobl ifainc, diwaith y bydd rhaid iddynt ymfudo o'u broydd, a pha mor hir y bydd rhaid i Gwynfor Evans wneud ei safiad, cyn y gwelir rhywfaint o gyflawnder yn cael ei fynegi unwaith eto yn y gwahanol feysydd hyn? Mae'r rhagolygon yn peri diflastod mawr.

CYMDEITHAS GYMRAEG PENTWYN A LLANEDEYRN

CINIO BLYNYDDOL

GWESTY CHURCHILL'S, LLANDAF, Nos Fercher, Gorffennaf 9, 1980

Pris: £5.80

Gwr Gwâdd : Dr. Meredydd Evans.

O'R POST

Annwyl Olygydd,

Gaf i ddweud diolch am gefngoi apel yr Uned Drawsblaniad Newydd yn rhifyn mis Ionawr. Fe hoffwn i ddweud diolch yn fawr iawn hefyd wrth bawb sy wedi cyfrannu. Diolch i haelioni y Cymry, rŷn ni wedi cyrraedd ein nod o fwy na chan mil o bunnoedd. Mae'r gwaith ar ddechrau ar atgyweirio hen ward yn yr Ysbyty Brenhinol i fod yn Uned Newydd. Fe fydd hi'n cynnwys lle i naw claf. Fe fydd rhai o'r gwelyau ar wahan a rhai mewn ward bach. Rŷn ni'n gobeithio y bydd yr Uned yn agor y flwyddyn nesaf ac o les i lawer yn Ne Cymru.

Ar hyn o bryd mae 124 o bobl sy'n byw gydag aren newydd yn ein hardal ni ond mae 110 o gleifion sy'n defnyddio peiriannau o hyd. Mae'r mwyafrif ohonyn nhw yn aros am aren wedi'i thrawsblannu.

Dechreuwyd yr apel gan Sefydliad yr Uned Ymchwil Arennol i Gymru (K.R.V.F. yn Saesneg) a maen nhw'n parhau i gefnogi ymchwil arennol a hefyd ofalu am y cleifion. Felly os oes rhywun am helpu gyda'r gwaith, fe fydd y Sefydliad yn croesawu unrhyw gyfraniad.

Yn gywir iawn,
G.A.Coles,
Cyfarwyddwr yr Uned
Ddialysis.

Dymuna'r Dinesydd bob hwyl iddi hi yn ei swydd newydd.

Carai Pwyllgor y Dinesydd ddiolch i Gymdeithas Gelfyddydau De-ddwyrain Cymru am ei chefnogaeth ariannol.

Mae Nesta Jones, Heol Crystalwood, yn cychwyn gweithio fel Cynorthwydd Cynhyrchu gyda Theledu Harlech y mis hwn - ar ôl cwblhau cwrs mewn Ysgrifenyddiaeth yng ngholeg Colchester Avenue. Graddiodd yn y Gymraeg yng ngholeg Aberystwyth.

—Y CALENDR—

Gorff. 12 ^{GWYL}TRELAI. CROESO
I BAWB. DEWCH YN
LLU. (Gweler Dinesydd
Mehefin am fanylion).

10.30 a.m.

NOSON GWILYM

Ar ddydd Sadwrn y 5ed o Orffennaf bydd Gwilym Roberts yn derbyn gradd anrhydedd gan Brifysgol Cymru. Mae holl gyfeillion Gwilym yn ymfalchio yn yr anrhydedd haeddiannol hon, ac am gyd-ddathlu ag e. Bydd NOSON GWILYM yn Neuadd Goffa Rhiwbeina am wyth o'r gloch, nos Sadwrn, y 5ed o Orffennaf. Can croeso i bawb sydd am rannu'r llawenydd a Gwilym ddod. O gofio am gyfraniad Gwilym i Fudiad Ysgolion Meithrin, i'r Urdd ac yn arbennig i'r llu o ddysgwyr fu wrth ei droed, disgwylir y bydd y Neuadd dan ei sang. Bydd yno luniaeth ac adloniant. Os am ddod - mynnwch docyn (£3) oddi wrth Mair Owen, (63480) neu Janet Parry Jones, (753375).

(o d. 1)

Ac adnosition Cymraeg; ar yr un pryd, y mae'r strwythur cychweithredol a'r ffaith i'w gwelwch ym sylfaenol yn rheoli'r clwb yn warant nad anghofid y rhesymau a'r egyptodion sylfaenol dros sefydlu'r clwb.

Os carech gefnogi'r syniad cyffrous hwn, danfonwch at Ysgrifennydd y Clwb, Nic ap Glyn (135 Keppoch St, Plasnewydd, Caerdydd) am ffurflen gais i ymaelodi a Chymdeithas Clwb Cymraeg Caerdydd (tal aelodaeth £1) - a gofynnwch am archeb banc ar yr un pryd! Cynhelir cyfarfod agored i holl aelodau'r Gymdeithas (ac unrhyw un arall sydd â diddordeb yn y syniad - gellwch ymaelodi yn y Gymdeithas yn y cyfarfod) nos Fawrth, Gorffennaf 15fed am 7.30 p.m. yn Neuadd Ysgol Bryntaf. Bydd hyn yn gyfle i gyfnewid syniadau am y clwb a thrafod y Cyfansoddiad darpariaethol. Dewch yn llw - na foed i ni golli'r cyfle cyffrous hwn i wneud rhywbeth ymarferol dros Gymreictod yng Nghaerdydd.

SAE

EISTEDDFOD GADEIRIOL CAERDYDD 1980

I'w chynnal yn Neuadd Goffa Rhiwbeina dydd Sadwrn, 8 o Dachwedd, 1980,
i ddechrau am 4 o'r gloch y prynhawn.

Arweinyddion: Robin Jones, W.J. Jones

Cyfeilydd: Huw Thomas

Bydd cystadlaethau Adrodd (iaith gyntaf ac ail-iaith), Cerddoriaeth (unawdau, deuawdau, Cerdd Dant, piano, telyn, llinynnau etc.) a chystadlaethau llenyddol (cyfansoddi telynegion, limrigau, englynion, ysgrifau).

Beirniaid: Chris Rees, Islwyn Jones, Arfon Jones.

Rhaglenni ar gael am 10c. yr un oddi wrth:

Benny Harris, W.J. Jones, Eleanor Wyn, David Lloyd (Glantaf), Hywel Griffiths (Rhydfelen), Lila Plette (Llanhari), Alwyn Deiniol, Mair Elvet Thomas, Ann Beynon.

Byddant hefyd ar werth yn "Oriel"

MYNNWCH EICH COPI AR UNWAITH

Mae'r Academi Gymreig yn gweithredu gyda nawdd Cyngor Celfyddydau Cymru.

Glowyr yng Nghymru

12 Mehefin—27 Gorffennaf
Amgueddfa Diwydiant a Môr Cymru,
Heol Bute, Caerdydd

Agweddau gwahanol ar fywyd y glowr Cymreig yw testun y detholiad hwn o waith y ffotograffydd Kjell-Ake Andersson o Sweden. Ym 1976 a 1977 bu'n cofnodi gwaith glowyr yng Nglofa Bargoed, Morgannwg Ganol: gwelodd nhw wrth eu dyletswyddau yn y lofa, gyda'u teuluoedd yn eu cartrefi ac yn ymlacio gyda'u ffrindiau fin nos.



Cofiwch am Y DINESYDD

Os am roi pwt o newyddion ar unwaith, ffoniwch un o'r canlynol yn ddi-od:

Shân Emlyn — 751469

Gwyn Lewis Davies — 756882

E. Gunston Jones — 499469

T. Raymond Edwards — 563588

Os gellwch deipio'ch erthygl, stori, etc., neu ei chael wedi'i theipio, bydd yn help mawr iawn.

Croesawn Mrs. A. Watcyn Jones yn ôl o Awstralia lle bu'n ymweld â Rhys, ei mab, un o archaeolegwyr blaenaf y wlad honno. Gweithiodd yn arbennig ar arch-

aeoleg yn Nhasmania gan gyflwyno rhaglen deledu arbennig o ddiddorol ar yr ynys honno ar BBC 2 y gae diwethaf.

Mae Mr. Gareth Howell wedi derbyn swydd newydd yng Ngenefa gyda Chymdeithas Iechyd y Byd. Bydd ef a'i briod Sarah yn awr yn symud yno i fyw.

GWOBR STORI FER

Mae disgybl yn Ysgol Llanhari wedi ennill gwobr o £100 mewn cystadleuaeth stori fer a drefnwyd gan Fanc Barclays.

Mae Iestyn Harries yn 17 oed ac yn ei flwyddyn gyntaf yn y chweched dosbarth.

Allan o gyfanswm o 2,200 disgybl Chweched Dosbarth a gymrodd ran yn y gystadleuaeth drwy Brydain gyfan dim ond 250 ohonynt oedd yn deilwng i dderbyn gwobr ac roedd Iestyn yn un o'r ychydig rai i ennill yr ail gwobr.



Iestyn Harries.

Testun y stori fer oedd astudio tri phwnc Safon unrhyw wedd ar fywyd cymdeithas yn y flwyddyn 2001. Economeg a'i fwriad wedi Dewisodd Iestyn sgrifennu gadael yr ysgol yw astudio stori'n ymwneud ag Euthanasia. ar gyfer gradd brifysgol yn y Cyfraith. Mae'n hanu o'r Harri.

Ar hyn o bryd mae Iestyn yn

"Y MAE EU LLADIN, AR FY LLW, YN LLON, NID LLEDDF, . . ."

Parchai Williams Parry iaith a safonau, a phe gwelsai'r Geiriadur Lladin-Cymraeg (Gwasg Prifysgol Cymru, 1979) buasai wedi cytuno â newid ei gwpld a'i gyfeirio at y gyfrol newydd hon. Nid y byddai ef mwy na minnau na'r mwyafrif o'i brynwyr yn mynd ar yrru i'w dudalennau'n aml; mwy nag y rhuthrodd rhagor na rhyw ddwsin neu ddau erioed at gynnwys rhaflaenydd enwog y cyhoeddiad hwn, geiriadur dwbl Dr. John Davies, Mallwyd, prif achubydd safonau'r Gymraeg ar ddechrau'r ail ganrif ar bymtheg. Iawn y defnyddir y gair 'dadeni' gan brif olygydd y geiriadur newydd, Huw Thomas, pan yw'n cyfeirio yn ei Ragair at gyfnod prysurdeb cyfieithu'r Beibl a gosod safonau llenyddol y Gymraeg ar un llaw, ac at un nodwedd amlwg onid eithriadol ein dyddiau ni ar y llaw arall, twf heintus y niferoedd sy'n heidio am addysg cyfrwng Gymraeg.

Er prinned fydd defnyddwyr y Geiriadur wyth can tudalen o brint man hwn, ac er y bydd rhai am ddadlau mai gwell fuasai defnyddio'r adnoddau mewn maes mwy poblogaidd, cansyniad fyddai i neb feddwl am funud nad cymwynas bwysig yn y dyddiau hyn o edwino a gostwng safonau hyd at ferwindod yw materion iaith yw cyhoeddi'r Geiriadur hwn. Mae'n gyfraniad o'r un natur ag ydoedd gosod canonau iaith safonol yng Ngeiriadur Lladin 1632 gan yr un a fu'n fwy cyfrifol na neb fod y Gymraeg wedi medru cadw digon o safon i oroesi. Dyma swyddogaeth geiriaduron: llawr dynu i nithio safon ydynt (y Gymraeg a'r Lladin yn yr achos hwn). Mae'n bwysig parhau i arddel y safonau iaith uchaf posibl, hyd yn oed mewn cyfnod a chylchoedd lle y gwyddom mai cyfaddawd yw'r unig fodd i ymglywed â rhywfaint o seiniau'r Gymraeg ar hyn o bryd.

Mae'n braf i'r Dinesydd gael llongyfarch Huw Thomas a nifer da o'i gyd-ladinwyr o'r cylch hwn (heb son am gymorth yr 'hyperboreorum') ar y cywaith clasurol hwn. Rwyf yn pryderu nad oes neb ar ôl heblaw'r rhain i fedru ysgrifennu adolygiad cymwys arno! Ni honnaf i allu gwneud hynny o gwbl; mae'n amlwg fod yn y gyfrol warchod

safonau a rofal mawr am ysgolheictod, a bum i'n ceisio chwilio am anghysonderau yn y modd yr oedd aelodau'r tîm wedi bod yn cydweithio. Da phen i gyfaddef i mi fethu â thynnu'r bluen hon o het y prif olygydd.

Mae'n bleser tynnu sylw at gyfrol na fydd byth yn boblogaidd, ac na obeithiodd hynny erioed, er bod nifer da o gopïau wedi'u gwerthu'n barod. Oni fydd yn boblogaidd, bydd yn bwysig, nid yn unig fel un o gyfraniadau'r 'dadeni' sy'n digwydd yn yr ysgolion (yn fwy nag yn y colegau!), ond hefyd am ei bod o'r brid sydd â gofal am gynnal a gwarchod safonau iaith (y Gymraeg fel y Lladin). Byddai'n ardderchog hefyd pe gallai gynorthwyo i adfer bri dysgu Lladin i rai o oreuon ein ysgolion cyfun.

Pe all Geiriadur Lladin-Cymraeg 1979 o ran ei gynnwys a'i ddiwyg clasurwydd ymfrostoio yn gymar gweddus i'r Dictionary Duplex 1632 melyn ei ledr ar y sillf. Mae rhyw hyfrydwch hefyd o gofio i Dr. John Davies fyw am rai blynyddoedd pan oedd tua'r der ar hugain oed, yma yn Llandaf, a rhoi i'r ardal hon yng Nghaerdydd beth hawl ar yr unig ddau eiriadur Lladin-Cymraeg: Gan Ohebydd Arbennig

Cafodd Mrs. Griffiths ei haddysgu ym Mhrifysgol Cymru, lle y graddiodd yn y Gymraeg a'r Saesneg; mae hi newydd gyflwyno traethawd ar gyfer gradd M.Phil. Mae hi wedi gweithio fel athrawes ac fel cynorthwyr ymchwil ym Mholitechnig Cymru.

Yn ferch i'r awdur a'r Cyn-

PENODIAD NEWYDD

Penodwyd cyn-aelod o staff Y Cymro yn Uwch Swyddog Hysbysrwydd BBC Cymru.

Mae Gwyn Griffiths yn 39 oed a bu'n Swyddog Hysbysrwydd Cynorthwyl BBC Cymru er ymuno â'r Gorfforaeth ym 1969.

Bu'r swydd o brif swyddog hysbysrwydd yn wag er i Roland Lucas ymddeol flwyddyn yn ôl.



Mae Gwyn Griffiths yn enedigol o Dregaron ac fe'i haddysgwyd yn yr Ysgol Uwchradd leol a Choleg Addysg Caerdydd.

Bu'n gweithio gydag Urdd Gobaith Cymru fel Trefnydd Sir Benfro ac yna fel Swyddog Cysylltiadau Cyhoeddus y mudiad.

Wedyn ymunodd â Chwmni Papurau Newydd Gogledd Cymru yng Nghroesoswallt lle bu'n gweithio ar Y Cymro. Bu'n ysgrifennu hefyd i amryw o bapurau eraill yn y Gogledd.

Mae'n awdur llyfr taith ar Lydaw, sef 'Crwydro Llydaw', ac y mae wedi ysgrifennu cyfrol arall, eto'n ymwneud â Llydaw, sydd i'w chyhoeddi y flwyddyn hon.

Mae'n briod a chanddo bedwar o blant ac yn byw ym Mhontypridd.

Archdderwydd Mr. Bryn Williams, ac yn briod i Mr. Merfyn Griffiths, prifathro Ysgol Gyfun Llanhari, mae hi wedi cyfieithu a golygu nifer o gyfrolau yn yr iaith Gymraeg.

Bydd Mrs. Griffiths yn ymuno â'r Cyngor ar 1 Medi, 1980. Ymhlith ei chyfrifoldebau bydd gweinyddu gwaith y Panel Llyfrau Plant.

PENODIAD NEWYDD

Cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru benodiad Swyddog Llenyddiaeth Gymraeg newydd, sef Mrs. Nan Griffiths, o Bentyrch, ger Caerdydd. Llongyfarchiadau gwresog Y Dinesydd, a'n dymuniadau gorau iddi yn ei swydd newydd.

Gŵyl Gerdd Dant Genedlaethol Cymru

Tybed a wyddoch chi fod amryw ohonom ni ddinasyddion Caerdydd wedi bod yn dioddef o glwy heintus iawn yn ddiweddar? Fe'i gelwir "Y Felan Bost-Eisteddfodol". Roedd y symptomau yn hollol amlwg. Wedi'r holl frwdfrydedd a'r bwrlwm o wahodd a threfnu'r Eisteddfod Genedlaethol, dwy flynedd o bwyllgora, ymarfer cŵr, a thorchi llewys i weithio ar y Pafiliwn, fe ddaeth, wedi'r Ŵyl, y segurdd mawr. 'Doedd ail-gydio mewn dosbarthiadau nos a'r cylch-oedd cinio ddim yn ddigon, ac fe aeth y llaesu dwylo yn drech na rhai.

Yna rai misoedd yn ol, fe ddaeth y feddyginiaeth, ac amryw ohonom yn gwella'n rhyfeddol bellach, diolch yn fawr. Beth oedd y ffisig? Wel Gŵyl arall i'w gwahodd a'i threfnu. GŴYL GERDD DANT GENEDLAETHOL CYMRU.

Eisioes fe ffurfiwyd pwyllgorau sydd, yn ddiwyd iawn, mewn byr amser, wedi bod wrthi yn dewis testunau i'r gwahanol adrannau a sicrhau lleoliad

yr Ŵyl. A fy mraint i bellach yw cynoeddi yn y Dinesydd bod yr Ŵyl hon i'w chynnal ar Dachwedd y 17fed, 1981, yn Neuadd y Ddinas.

Ein nod ariannol yw £7,000, ac yn barod mae amryw ohonoch wedi cyfrannu'n hael iawn i sicrhau y gwobrau. Efallai y bydd rhai yn tybio bod nod o'r fath braidd yn uchel i Ŵyl undydd, ond dyma'r unig gyfle mewn blwyddyn i Gymdeithas Cerdd Dant Cymru wneud elw er mwyn prynu ac atgyweirio telynau ar fenthyg i blant Cymru - rheswm digonol a theilwng, rwy'n siwr y cytunwch.

Trysorydd yr Ŵyl yw Myrfin Griffiths, Prifathro Ysgol Llanhari, ac mi fydd o'n ddiolchgar iawn am unrhyw roddion a gaiff gan unigolion a sefydliadau yn y Brifddinas, ac wrth gwrs gwyddom y gallwn ddibynu ar eich cefnogaeth i'r gweithgareddau fydd yn cael eu trefnu i'w chwyddo'r gronfa a sicrhau croeso teilwng i'r Ŵyl Genedlaethol hon i Gaerdydd.

Robin Jones.

HTV CYMRU/WALES O DDYFFRYN LLIW

Gwasanaeth cynhwysfawr HTV Cymru o Faes yr Eisteddfod i Gymru benbaladr.

POB BORE o ddydd Llun hyd ddydd Sadwrn gan ddechrau am 11 a.m. bob dydd, awr o'r Ŵyl yn fyw o lwyfan yr Eisteddfod.

Y PRIF SEREMONIAU - dydd Mawrth, Y Coroni, dydd Iau, Y Cadeirio, dydd Gwener, Croesawu'r Cymry Alltud - oll ar HTV Cymru.

PENAWDAU'R NEWYDDION am 1.20 p.m. o ddydd Llun i ddydd Gwener o Faes y Brifwyl.

Y DYDD a REPORT WALES 'Y Dydd' o'r Maes bob dydd o ddydd Llun hyd ddydd Gwener am 6 p.m. 'Report Wales' am 6.18 p.m.

GWASANAETH O'R MAES Gwasanaeth fore Sul o bafiliwn yr Eisteddfod ar HTV Cymru a theledu annibynnol trwy Wledydd Prydain.

RHAGLEN DDWYIEITHOG EI CHYFLWYNIAD o nos Fawrth hyd nos Sadwrn.

GWOBROFFA DANIEL OWEN - Caiff HTV Cymru yr anrhydedd o gyflwyno Gwobr Goffa Daniel Owen yng nghystadleuaeth y nofel.

BYWYD Rhaglen arbennig gan Gwyn Erfyl.

YR WYTHNOS Rhifyn arbennig 'Yr Wythnos' nos Lun yr Ŵyl am 8.30 p.m.

AR Y MAES - gwasanaeth cyfieithu i'r di-Gymraeg, Pabell Groeso, Pabell y Plant, taflen y dysgwyr, lliw a llun stiwdio a baneri'r Cwmni - cyfraniad i fywyd, gweithgarwch a sioncrwydd y Maes.

YMUNWCH Â NI,

HTV
CYMRU/WALES

o Faes y Brifwyl ac o'r Ganolfan Deledu yng Nghaerdydd.

Mrs Ann Mainwaring

Yn ddiweddar, bu farw Mrs. Ann Mainwaring, mam y Parchedig M.R. Mainwaring. Da gennym gyhoeddi y deyrnged isod a ymddangosodd yn NODION Y GWEINIDOG yng nghylchgrawn Eglwys Heol y Crwyst.

Roedd hi'n annwyl i bawb ohonom, ac yn adnabyddus trwy Gymru gyfan. Byddai'r pellaf o'r capel, a'r rhai na fyddai'n darllen eu Beiblau, yn mwynhau ei chlywed yn adrodd yr Ysgrythur. Y Cair-fu ei chynhaliaeth, a chyfrinach ei bywyd dedwydd o wasanaeth. Yr oedd yn meddu ar lawer o doniau a gwelodd yr Eisteddfod, y Cyfundeb a'r cyfryngau torfol hyn. Ac yn goron ar y cyfan, 'roedd ganddi y lledneisrwydd ysbrydol hwnnw a'i gwai yn fam i ni oll yn y ffydd. Piti ei marw ychydig wythnosau cyn iddi gyrraedd ei chanrif. Ond, bu farw, fel y bu byw, "yn yr Arglwydd", chwedl yr Apostol Paul. Yr ydym, fel eu hedmygwyr ym mhob man, wedi cydymdeimlo â'i theulu, ac yn ein hiraeth, yn falch bod Mr. Mainwaring wedi goddiweddyd dau ddigwyddiad go chywyr yn ei fywyd yn ddiweddar, gyda buddugoliaeth.

Catalog o Gyhoeddiadau'r Amgueddfa

Cyhoeddir y mis hwn y catalog cyflawn cyntaf o gyhoeddiadau'r Amgueddfa, Ymhlith y cyhoeddiadau Cymraeg a Saesneg a restrir y mae cyfres boblogaidd o lyfrau darluniadol, llyfrau a ysgrifennwyd yn arbennig ar gyfer plant, catalogau, adroddiadau a darlithiau, teitlau safonol ac academaidd a chyfres o erthyglau. Gellir arhebu'r catalog, sy'n rhad ac am ddim, oddi wrth Reolwr y Siop Lyfrau, Amgueddfa Genedlaethol Cymru,

CROESAIR Y DINESYDD

Rhif 5

Ar Draws

- Difyrrwch a geir yn nadl Ianto (9)
- Y fam all adeiladu sticill(5)
- Llyffetheirio (7)
- Dysgwyr yn ubain o'i flaen wrth fynd ar ôl tasg plentyn peripatetig (7)
- Yr arf a ddefnyddia gŵr call i fwyta cawl (2,3)
- A wél y ddafad ôl ei chnu wedi ei chribo ar bennau'r mynyddoedd? (7)
- Awdur talfyredig cyfran o'n hen benillion (2)
- Tarw yn gwneud llanast ar y 16n gul (4)
- Cyfansoddwr yn dilyn anghynnes nodyn yn ddigroeso a digydymdeimlad...(9)
-Ai'r "Brenin hwn" oedd cyfanwaith diwethaf yr un cyfansoddwr? (4)
- Hen fuwch (2)
- Y baradwys a fwriadwyd inni, ond a gollwyd (4,3)
- Mae gwneud cwlwm am eich bys i gofio rywbeth yn peri fod cymal yn gwanhau a chleisio (5)
- Fe enir cywion adar o chwith ar ganol tyle difannod, a lle cyfyng i sefyll sydd yno (7)
- Toll a gwg sy'n dod i un sy'n tyfu blew (7)
- Pan fydd seneddwr yn ymuno â chymdeithas mae safle anrhydeddus yn dilyn (5)
- Ai trin bysedd yw swasanaeth hon? (9)

I Lawr

- Rhidyl u'r rhan fwyaf o'r graean i godi cronfur (5)
- Gwastatau rhan o le fel uned (6)
- Ffrydiau bychain (6)
- Fe all Arthur droi yn arswydus (5)
- Poethder alcan sy'n rhoi'r pwnc (6)
- Minlogrwydd tloedi (6)
- "Heuaist y gwynt,..... y corwynt." (7)


Croesair y Dinesydd Rhif 4

Datrysiad

Ar Draws: 1. Cysgod y Cryman; 7. nawddogaeth; 9. mainc; 11. ddu; 12. ci; 13. eiddo Efa; 14. brawle; 16. ai; 17. isradd; 19. geneth ddrwg; 21. pelen; 22. gwmon y mor; 24. echdoe; 26. byd; 27. athronydd; 29. taladwy; 30. or; 32. dygir; 33. cynnar law; 34. llwrymwrthodwr;

I Lawr: 1. Cyn oeri'r Gwaed; 2. Siwg ddwr; 3. ogofeydd; 4. creu; 5. mamiaith; 6. neithdar; 8. Adda; 10. coelgrefyddwyr;

gan ap Lewsyn



- "A'r ddaear oedd.....a gwag".(Gen.1) (9)
- Mae 13 ar draws yn cilio o bliith y teganau ac yn gndael i'r lleill gadarnhau (5)
- Mae sudd ategol yn gyfrifol am lawer i gyfeddach (9)
- Y crefw'r a welir ar yr unfed-ar-ddeg o Fawrth (5)
- Mae'r swnd yn perthyn i bob negro (5)
- Hy a beiddar (5)
- Arddodiad lle a chyfrwng (5)
- Geneau sy'n dyfrio (7)
- Doethur ynghanol sylwedd annelwig a chibau, yn llawn angerdd teimlad (6)
- Lle i bwy sydd yma i weithio'r offer hyn? (6)
- Gŵr gradd rhwng y tŷ a rhan o'r coleg yn cael nodd i lenwi'i getyn (6)
- Rhan o gyflwr Bedwyr pan, "At y drin aeth eto draw"(6)
- Coed sydd i'w cael yn gymysg a wermod, a'u dail a'u blodau a'u ffrwyth yn llesol (5)
- Cyfuniad chwithig o 16 a 13 ar draws sy'n cynnal y gân (5)

12. craen; 15. aelod; 18. addo; 19. gemydd; 20. Mŵr; 21. pybyr; 23. merch gall; 24. eilwaith; 25. didolidd; 28. Norwy; 31. ffyrm

Ymddiheuriad

Blin gennym am y gwallau canlynol wrth argraffu Croesair y Dinesydd Rhif 4

- Camrifwyd 24 ar draws fel 23
- Camrifwyd 31 i lawr fel 29
- Gadawyd cliw 24 i lawr allan yn gyfangwbl. Y cliw oedd; 24 i lawr. Eto (7)

Yr ydych chi'n edifarhau mewn sachliain a lludw ac yn addo ceisio osgoi'r fath amryfusedd yn y dyfodol.

AWEN Y DDINAS

Cerdd fuddugol Cadair Ysgol Glantaf. (Roedd y darn hwn yn ail yn Eisteddfod Bro Colwyn hefyd).

Ar y Slei

Weithiau,
Pan fydd Dad yn yr ardd
A Mam yn y dre,
Huw'n chwarae rygbi
A'r lleill yn cael te
Efo ffrind 'fyny'r lon,
Mi sleifiat yn ddistaw
I'r gegin gefn
Ac agor y cwprudd,
(Bydd Mam yn deud drefn.)
Ac yno'n y dirgel
Mi helpaf fy hun
I gaws a salami,
Bara tenyn, onau mwnci,
Popeth bywtadwy o fewn cyrraedd
'Y mraich i
Nes 'y mod i'n diflasu.

Weithiau,
Pan fydd Dad yn gweiddi
O waelod y grisial,
"Diffodd y gola' 'na,
Brysia, brysia!"
Disgwyliat am funud
Nes clywed ochneidio
A chlep ddiamynedd
Y drws ar ei ôl o.
Ac yna, ar ôl dewis
Llyfr o'r silff lyfra',
Mi neidiaf dan clydwech
A gwres y cynfasa'.
Darllen a darllen a darllen
am oria',
Yna cripiant yn ddistaw
I ddiffodd y gola'.

Weithiau,
Pan fydd pawb wrthi'n ddygn
Yn palu a chwynnu,
Mi giliaf yn dawel
I'r stafell deledu
Gan obeithio'n fynghalon
Na fydd Dad yn sylwi.
Ond bron yn ddieithriad
Bydd cythraul o le,
Caf bregeth faith ganddo
Nes 'y mod i 'di mwydro
A'm meddwl 'di crwydro
I rywbeth 'blaw garddio.

Dydi hwy! ar y slei
Dim yn talu
Weithiau.

Marc Edwards.

Bu Dosbarth Nos Caerffili, gyda'u tiwtor, W.J. Jones, ar daith o gwmpas Brycheiniog ar Fehelin 28, gan gychwyn yn ogofau Dan yr Ogrof cyn teithio i Aberhonddu - a dilyn trywydd ambell ysgyfarnog llenyddol yn y fan honno. Y tymor nesaf, byddant yn astudio bywyd a gwaith Caradog Pritchard.



NEWYDDION CWM RHYMNI

Sŵn sy wedi mynd a'm bryd yn ddiweddar. Corn y frigad dan yn amlach ar fy nghlyw nag unrhyw swn arall a rhywun wrth ei glywed yn edmygu dyfalbarhad y bechgyn sy'n ymateb i'w galwad. A oeddwn yn clywed o gyfeiriad Nelson sŵn gweddi daer y coedwigwr adnabyddus am ddyddiau o law trwm? Nac oeddwn, doeddwn i ddim. Dim ond clywed sŵn ei Land Rover swyddogol yn prysuro tua Chwm Dâr.

Wrth i'r frigad dan dawelu yn y pellter yng nghyfeiriad y Brithdir daw sŵn arall i'm clyw. Swn nad ydyf yn ei ddeall. Sŵn drws Capel Bethania ym Margoed, Capel yr Hen Gorff, yn cael ei wthio'n agored gan ysgwyddau blaenor ffyddlon ar gyfer oedfa 6 bob nos Sul. Ond does yr un yn cael ei chynnal... mae rhywbeth o'i le...yr unig gapel Cymraeg yn y dre...A fawr neb ond dau neu dri yn malio a oes ei angen ai peidio. Ydi ei gyfraniad ar ben? Yn ôl pob golwg, ydi...hen sŵn annymunol, hen sŵn anodd ei ddeall, ydi sŵn darn hanfodol yn dadfeilio.

Mae sŵn gweithgarwch yn y gwynt hefyd. Sŵn prynu llyfrau gan aelodau Cylch Diwylliannol Caerffili ar gyfer y tymor nesaf. Mae'r Cylch wedi penderfynu astudio gwaith Caradog Pritchard, y llenor cenedlaethol o Fethesda a fu farw ar drothwy Gŵyl Dewi eleni yn Llundain. Mae llawer o'r aelodau wedi bwrw iddi i ddarlenn Afal Drwg Adda, hunan-gofiant methiant y prifardd, ar gyfer mis Medi, er mwyn cael gwerthfawrogi beth fydd gan W.J. Jones, Caerdydd i'w ddweud am y gyfrol. Bryd hynny bydd ef yn agor ei seithfed tymor gyda'r cylch, a fydd yn agor ei wythfed tymor dan nawdd Adran Efrydiau Allanol Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

Wrth glywed sŵn y Cylch yn bwrw iddi mae un sŵn ar goll. Dydi

llais Clive James o Hendredenny ddim i'w glywed yn holi'n eiddgar am daith y cylch i ardal Aberhonddu. Mae'r brodor o Neyland, Dyfed, wedi symud o'r ardal i weithio yn Llanelli. Bydd ei le yn wag yn y cylch a'r Gymdeithas Gymraeg. Dymunwn iddo y gorau ym mro y Sosban gan fawr obeithio na fydd y bel Gron yn ennill ei fryd ar draul y 'peth'!

Yng Ngorffennaf 1927 roedd Iorwerth Peate yn teithio drwy Fargod, taith a'i cynhyrfoed i ysgrifennu cerdd drist. Darllenais y gerdd "Wrth Weled Tref Bargoed" yn y gyfrol "Crwydro Blaenau Morgannwg" ar dudalen 156. Wrth gloi ei ail bennill mae'r bardd yn gofyn:

"A ddaw y gog i gadw ei hoed
A'i bergainc tua'r Bargoed?"

Bron i hanner canrif yn ddiweddarach bum yn ddigon hy i rigymu atebiad iddo!

"Yn ôl ei harfer
daeth y gog
i gyffiniau Bargoed,
ac yng nglas y bore
uwch côr y wawr
fe glywaic ei ddonod
yn dychanu cân
y bardd o Lanbrynmair."

Ond eleni, a minnau heb glywed y gog, hyd yn hyn, mae cwestiwn Dr. Iorwerth Peate yn fy mhryfocio unwaith yn rhagor. Rwy'n dyheu am glywed ei sŵn.....

Bu digwyddiad arwyddocaol yn Nhrelai yn ystod y flwyddyn ddiwethaf - sef agor Canolfan Hamdden yno, ar ôl ymladd hir a brwd gan y cynghorwyr lleol i'w leoli yn Nhrelai yn hytrach nag yn Nwyrain y ddinas. Codwyd yr adeilad, gwerth tri chwarter miliwn o bwrnoedd ar safle cyfleus yng nghanol yr ystad rhwng y De a'r Gogledd, ac fe'i bwriadwyd i ateb gofynion gorllewinol y ddinas. Am y tro cyntaf erioed efallai, mae Trelai yn denu pobl fesul cannoedd o holl Barthau'r ddinas ac wrth gwrw yn llenwi bwlich hynod o amlwg ym mywydau brodorion Trelai. Fe geir yn awr ar drothwy'r drws gyfle i nofio ac i ymgymryd â'r holl chwaraeon niferus a geir oddi fewn i'r adeilad - dim ond siochau eich bod ar flaen y ciw chwe diwrnod cyn i chi ddymuno chwarae, cymaint yw'r galw am y lle!.

Gwelir yno ar adegau o'r wythnos wynebaw cyfarwydd iawn o Bontcana a Llandaf - a choesau noeth mewn trowsus byrion, hynod o anghyfarwydd hefyd.

Mr. Cliff Watts o Gasnewydd yw'r Arolygwr yn y Canolfan - gŵr sy'n arbennig o gefnogol i baw a phopeth Cymreig. Yn gweini tu ôl i'r bar mae Cymro glan o Sir Gâr, ac yn yr ystafell hon bob wythnos fe gyferfydd Dosbarth y Dysgwyr Cymraeg, Trelai. Mewn ystafell arall yn yr adeilad fe gynhaliwyd hyd yn ddiweddar Ysgol Feithrin Cymraeg gyntaf Trelai.

Darganfuwyd yn ddiweddar fod 'acoustics' y Neuadd Fawr yn y Canolfan yn nesaf peth i berffaith, ac ym mis Mawrth eleni fe gynhaliwyd yn y Neuadd y Cynrerd cyntaf - a hwnnw yn gyngerdd Cymraeg - rhan o raglen Gŵyl Gorawl Caerdydd. Cafwyd noson gofiadwy gan blant Ysgol Cyfun Gymraeg Glantaf, Meibion Menlli, Côr Meibion Dyfnant a'r unawdydd Delme Bryn Jones - y cyfan dan ofal dihafal Gwyn Erfyl. Roedd yn noson Gymraeg i'w chofio - yn un o ardaloedd mwyaf Seisnig y ddinas.

Llongyfarchiadau i Gareth a Siân Lotwick ar enedigaeth eu merch fach, Iona.

Cafodd Iolo Dafydd, mab Mr. a Mrs. Tom Davies, Highfields, Llandaf, wythnos o garchar yn Walton, Lerpwl am wrthod talu dirwy am barcio. Hi chafodd yr wys yn Gymraeg.

LLONGYFARCHIADAU

Llongyfarchiadau i Iona Jones ar gapio dwy wobwr gyntaf yn Eisteddfod yr Urdd Bro Colwyn, ac i Betsan Powys am ddoed yn ail ar adrodd o dan 19 oed. Llongyfarchiadau hefyd i Catrin Haf Williams ac Elin Prys Davies ar ddoed yn ail a thrydydd yng nghystadleuaeth y Gada'r.

CYDYMDEIMLAD

Cydymdeimlwn â Mr. Gareth Lloyd Williams ar goll'i dad yn ddiweddar.

Estynnwn ein cydymdeimlad cywiraf â Selwyn Roderick ar ei brofedigaeth ddiweddar o goll'i brawd, y Parchedig Angus Roderick.

PENODIAD NEWYDD

Mae aelod newydd wedi ymuno â Gwasg Prifysgol Cymru i gymryd lle Elwyn Thomas, Prif Glerec y Wasg sy'n ymddeol eleni. Un o Bwllheli ydy Gaynor Maddocks yn wreiddiol ac ym mis Mehefin symudodd hi i lawr o Hen Golwyn i fyw yng Nghaerdydd.

Dim ond lle i fyw dros dro sy gyda hi ar hyn o bryd ac felly mae hi'n chwilio am lety neu fflat a fyddai'n gyfleus i'r Wasg yn Stryd Gwennyth, Cathays. Mae tîpyn o ddodrefn gyda hi hefyd ac felly hoffai hi rywle heb ei ddodrefnu. Os ydych chi'n gallu rhoi cymorth iddi, wnech chi gysylltu â hi yn y Wasg? (Rhif ffôn: 31919 Est. 7).

O'R POST

Annwyl Olygydd,

Mae Merthyr Tudful yn dathlu mil a hanner o flynyddoedd ei bodolaeth eleni, ac mae Ysgol Rhydfelen am gyfrannu at yr achlysur drwy gynnal perfformiad llawn o'r opera Blodwen gan Joseph Parry - un o feibion y dref.

Nid yw'r un perfformiad cerddorol yn bosibl heb gopiau. Apel yw hwn felly at unrhywun fyddai'n fodlon rhoi benthycy copi o Blodwen (Hen Nodiant neu Solffa) i Ysgol Rhydfelen i gysylltu â mi. Perchir pob benthyciad.

Diolch yn fawr am eich cydweithrediad.

Dulais Rhys,
Yr Adran Cerdd,
Ysgol Gyfun Rhydfelen,
Pontypridd, Morgannwg Ganol.

Anfonwch eich defnyddiau!

O hyn ymlaen, wnewch chi anfon defnydd i Afallon, 11 Clos Hendre, Llandaf CF5 2HT. *Dyw hi byth yn rhy gynnar* a rhaid i'r defnydd fod yn ein dwylo fan bella **ERBYN YR 8fed O BOB MIS**. Dim ond rhywbeth eithriadol iawn a ddylai fod yn hwyrach, hyd at yr 15fed o'r mis.

YR AMGUEDDFA

Dweud a Gwneud
Amgueddfa Werin Cymru, Sain Ffagan, Caerdydd.

Bob prynhawn Sadwrn yn ystod y mis hwn bydd aelodau o staff yr Amgueddfa Werin, ynghyd â chraffwyr yn rhoi sgwrs ac yn arddangos crefft draddodiadol. Dyma'r pynciau yr ymdrinir â nhw:

Gweithio Ci Defaid	5 Gorffennaf
Gwneud Canhwyllau	12 Gorffennaf
Llysiau Meddyginiaethol	19 Gorffennaf
Coginio ar y Maen	26 Gorffennaf

Dydd Agored
Sadwrn, 5 Gorffennaf
Amgueddfa Diwydiant a Mor Cymru, Heol Bute, Caerdydd.

Gwahoddir ymwelwyr i weld adrannau o'r Amgueddfa nad ydynt, fel rheol, yn agored i'r cyhoedd - gellir mynd ar fwrdd y tyfnad Sea Alarm, er enghraifft, a chael cip y tu ôl i'r llenni yn adran y cerbydau. Cyrrir nifer o beiriannau gan ager a dangosir ffilmiau gydol y dydd. Mynediad am ddim.

Locomotif Ager: Dydd Agored
Sul, 27 Gorffennaf

Ar hyn o bryd cedwir y casgliad o beiriannau locomotif ager Amgueddfa Diwydiant a Mor Cymru yn Stad Ddiwydiannol Harold Wilson, Heol Van, Caerffili, lle mae aelodau o Gymdeithas Rheilffordd Caerffili yn eu hadfer. Ar y Dydd Agored, 27 Gorffennaf, rhwng 11 a.m. - 5 p.m. fe fydd un locomotif yn symud ar y cledrau a bydd cyfle i ymwelwyr deithio mewn hen fan G.W.R. a dynnir gan y locomotif. Croesawir ymwelwyr i'r safle ar brynghawnau Sul i weld y gwaith adfer a wneir.

NANSI RICHARDS

Â'i thelyn rhoes i'w theulu - o'r hen hud
Nes i'r nos ei llethu;
Dwyn cân oedd heb ei chanu,
Dwyn y ddawn ar adain ddu.

TONY ELLIOTT

O 'Barddas', Ebrill, 1980

LLWYDDIANT Y SAIS, 1282 - 1980

Ar ôl clywed am fwriad y Llywodraeth i gladdu sbwriel niwclear yng ngogledd Cymru

Lladd hyder yng Nghilmeri; lladd yr iaith,
Lladd yr hil, a'i theithi;
Lladd awen cyn ei geni;
Lladd hyn oll; yna'n lladd ni.

TONY ELLIOTT

O 'Barddas', Mawrth 1980

GWESTY LLETY CYMRO

143 HEOL YR EGLWYS
GADEIRIOL
CAERDYDD. FFÔN 399659

GWELY A BRECWAST
BWYD A GWIN DA

TRWYDDED PRESWYL



HTV
CYMRU WALES
(Clwyd)

CYSTADLEUAETH LLUNIO RHAGLEN DELEDU

Cystadleuaeth llunio rhaglen deledu (stiwidio) i bara hanner awr gan ddefnyddio unrhyw gyfrwng ond ffilm. Gall fod yn waith un neu gywaith, yn ffeithiol neu ddychmygol.

Teledir y goreuon yn gyfres o'n stiwdio yn Yr Wyddgrug.

Am fanylion pellach, cysyllter â: Gwyn Erfyl,
HTV Cymru/Wales, Theatr Clwyd, Yr Wyddgrug,
Clwyd.

IAITH Y PLANT

BARN

Annwyl Famau Plant Bach,

Rwyf wedi oedi ac oedi cyn sgrifennu atoch fel hyn gan imi sylweddoli fy mod yn troedio ar dir simsan. Ond mae gen i ffrind, ŷch chi gyd yn ei nabod hi, Ethni yw ei henw ac mae hi wedi bod yn pwysu arna'i ers misoedd i wneud ac yn y pen draw mae'n amhosibl gwrthod dim i Ethni. Bob tro mae'r ddwy ohonom yn cwrrd mae'r sgwrs yn troi at iaith ein plant. Mae'n bwn dyrys a diddorol. Fe sylweddolom ni fod cap fi, cot fi yn naturiol i blentyn sydd yn dechrau siarad gan fod babi yn amal yn bachu ar ei enw ei hunan yn gyntaf oll gan son am cwpan Siôn, crys Siôn, ac ymhen dipyn yn datblygu at cwpan fi, crys fi. Dyma'r iaith mae plentyn yn cael gafael arni gyntaf. Y cwestiwn nesa oedd pryd mae plentyn yn croesi'r bont ac yn dweud yng nghwpan i, yng nghot i. Mewn cymdeithas gwbl Gymraeg fe fyddai clust y plentyn yn cyfarwyddo â chlywed yng nghwpan i ac fe fyddai ei iaith ei hunan yn newid gan bwyll. Ond nid cymdeithas felly sydd yng Nghaerdydd, ac rwy wedi dod i'r penderfyniad felly bod yn rhaid i ni famau gywiro iaith ein plant o oedran cynnar iawn. Gora po gynhara. Yr oeddwn wedi cael pylau o feddwl fy mod wedi colli'r ras gyda'r plentyn hyna sydd bellach yn yr ysgol ac yr oeddwn ar fin rhoi'r ffidil yn y to gan osgoi fy nghyfrifoldeb yn llwyr a dweud "Pe ddaw". Ond mi aeth yn ben set arnom ni fel teulu. Sylwais fod dydd Sadyrnau a Suliau'n mynd a dod a'r gwr yn gwneud dim ond ffræo â'r mab. Yn y diwedd roedd yn rhaid imi ymyrryd gan fod y bai hyd y gwelwn i ar y gŵr ac nid ar y crwt o gwbl. "Pam wyt ti mor flin wrth y crwt?" meddaf fi "dyw e ddim cynddrwg heddi". "Wel" medda'r gwr, "nid yn flin wrth y crwt ydwy, ond wrth y rwtsh mae'n siarad. Mae'n yng nghythrudo i'n ofnadwy". Wedi clywed cyfaddefiad fel yna roedd yn rhaid ymdrechu i newid y sefyllfa. Ac fe ddaeth achubiaeth o Wasg y Dref Wen. Ydych chi'n gyfarwydd â'i hargraffiad o Gweneira? Mae'n stori afaelgar, mae'r lluniau'n dda ac mae'r plant wrth eu bodd yn cyfri saith cadair, saith gwely a saith corrach. Ac yn bennaf oll, pan yw'r corrachod yn sylweddoli bod rhywbeth o le, maen nhw'n dechrau holi

Pwy sydd wedi eistedd yn fy nghadair i?
A phwy sydd wedi bwyta fy mara i?
A phwy sydd wedi symud fy nghylllell i?

ac mae'r plant yn dwli gofyn y cwestiynau hyn yn lle'r corrachod. Cewch chi benderfynu a ydych am iddyn nhw weud fy nghadair neu yng nghadair. Mae'n ymddangos imi fod plant yn dwli ar iaith, mae fel tegau newydd iddyn nhw ac maen nhw'n derbyn eu cywiro. Dwn i ddim a fyddan nhw mor barod i dderbyn pan ddôn nhw'n hŷn, dyna pam mae'n rhaid inni neud pan fônt yn ifanc. Ac mae'n rhaid i ni rieni Gymraeg wneud yr ymdrech a pheiddio â disgwyl i'r ysgol wneud popeth. Mae gan yr ysgol fwy na llond cêl wrth geisio rhoi iaith i'r di-Gymraeg.

Mae Gweneira i'w gael yn y llyfrgelloedd cyhoeddus. Rhowch archeb amdano oni fo ar y silffoedd. Beth am i bob un ohonom, gyda help Gweneira geisio gloywi tipyn ar iaith ein plant a chael tipyn o hwyl ar yr un pryd? Rwy'n dechrau meddwl ei bod hi'n haws cywiro'r treigladau na phethau fel fi heb, fi yn a fi gyda llyfr newydd. Ond cawn air am y rheiny y mis nesa. Am y mis hwn ein gwaith yw yng nghot i, yng nghap i. Dim ond inni ddyfalbarhau, fe welwn newid mawr rwy'n siwr. Yn ein tŷ ni, mae'n dwyn ffrwyth ar ei ganfed gyda'r ferch fach nad yw yn yr ysgol; mae'n fwy anodd gyda'r llall.

Yr eiddoch yn gywir,
Mary Wiliam.

Gwobr Tir na n-Og am lyfrau Plant

Heddiw cyhoeddodd Cyngor Celfyddydau Cymru euillydd Gwobr Tir na n-Og am lenyddiaeth plant. O blith y 60 llyfr Gymraeg gwreiddiol a gyhoeddwyd yn 1979 dyfarnwyd y wobr i Irma Chilton am Y Llong (Gomer) - stori afaelgar am ferch yn ei harddegau sy'n cael ei meddiannu gan ysbryd caethferch o'r hen Aifft.

yna hefyd yn y llyfr. Yn yr adran chwaraeon o'r llyfr mae rwbeth uchgyn a merched. Ac yn yr adran pop Gymraeg mae ynddo lawer o adroddiadau diddorol am y gwoliau poblogaidd fel Trwynn Coch, Shwn, Eliffant, E.H.Dafis, a mwy. Felly gan gymryd y llyfr yn gyfangwbl mae yn lliwgar ac yn diddorol iawn.

Siôn Wyn Davies (12 oed)

Rwy'n credu bod yr erthyglau ar chwaraeon ac ar y canu pop yn ardderchog. Mae'r rhan chwaraeon yn delio â mwy o chwaraewyr yn cynnwys rhai llai adnabyddus Cymreig, chwaraewyr sydd ddim yn y newyddion mor aml, e.e. Ieuan Owen ac Anne Ellis. Mae'r rhan ar ganu pop yn son am hanes y grwp, hanes ei recordiau a llawer rhagor o wybodaeth cyffredinol am ganu pop Cymreig heddiw.

Nid oeddwn yn meddwl bod y stori 'Tân yn y Coed' gan T.Llew Jones, yn un dda iawn oherwydd yr oedd yn ddigon hawdd dweud beth fyddai'n digwydd o'r dechrau sef byddai tân yn y coed fel mae'r teitl yn awgrymu.

Ar y cyfan rwy'n credu fod y llyfr yma'n werth ei arian a gwnaf yn siwr y byddaf i yn cael copi. Mae llawer o amrywiaeth yn y llyfr. Mae pedair stori i gyd, cartwnau, limerigau, yn amrywio o Dan Dŵr, Clint Eastwood ac Angylion Charlie, erthyglau ar goginio. Ond mae ychydig o bethau yn eisiau. Rydw i'n hoff o wneud croeseiriau a cwis neu ddau, ond nid oedd yr un o'r rhain ynddo.

Guto Davies (13 oed)

Yr wyf yn hoffi y llyfr yn fawr iawn. Mae digon o hanes am chwaraewyr Cymru ynddo ac yr wyf yn hoffi cartwns a'r limerics.

Mae'r coginio yn dda achos y maent yn ddigon syml i'w gwneud. Rwy'n meddwl fod y llyfr hwn yn fwy i fechgyn na'r merched.

Gobeithio byddaf yn cael y Llyfr HTV 3 amser fydd ar werth.

Iolo C. Davies (8 oed)

Mae Llyfr 3 HTV yn dda iawn, oherwydd mae tipyn o bob peth ynddo i bawb. Mae yna ganeuon pop, limerics, jôcs a chwaraeon a llawer o bethau eraill. Fy niddordeb i yw tynnu lluniau gyda chamra ac mae'r llyfr yma yn llawn o luniau da iawn o bob lliw. Ond does dim digon o jôcs a cartwns yn y llyfr. Mae yna limeric am bob rhaglen sy yn y llyfr, dyma un:

Y Dyn Bionic

Mae Steve Austin yn berson bionig, Y mae'n wifrau a gwaith electronig
Un ergyd gan hwn,
Ac, fel bwled o wn,
Fe symudwch fel un siwpersonig.
Ac mae llawer un arall fel yr un

gw. Col. 2.

O BEN CILGWYN

"Bardd ei fro", mae'n debyg, yw'r disgrifiad cyntaf a ddaw i'r meddwl wrth ddarllen y gyfrol fechan hon(1), oblegid o'i fro y daw ysbrydiaeth awen y bardd. A'r fro honno yw pentref Carmel sy'n llechu yn ardal mynydd y Cilgwyn ac yn edrych i lawr dros arfordir Dinas Dinlle ac Ynys Môn ar y gorwel draw - mynydd, afon a thraeth. Ardal y chwarieli a'i phobl a roddodd i'r bardd destun ei gerddi ac y mae ei gariad at ei fro yn amlwg fel llinyn arian drwy ei ganu.

Ceir unarddeg o sonedau disgrifiadol, crefftus ar destunau megis "O Ben Cilgwyn", "Teulu", "Carmel", "Caer Arianrhod" a "Dyffryn Nantlle" sy'n gyfar-eddol eu swyn ac yn fynegiant o falchder y bardd o'i ardal. Yn ei delynegion "Gwanwyn", "Cynhaeaf", "Ar Dorlan afon Llifon" fe'n swynir gan sylm-rydd clir a diffuant y bardd.

Ac eto, nid bardd ei fro yn unig mohono, oblegid fe lwydda i droi teimlad personol yn fynegiant o werthoedd bywyd yn gyffredinol. Sylwi ar y pethau o'i gwmpas a wnaeth y bardd a chael golwg ar fywyd yn gyfan ac, fel y dywed Syr Thomas Parry yn ei gyflwyniad "a phrofi mai myfyrio ar yr agos a'r cyfarwydd yw'r ffordd i amgyffred y pell a'r dieithr".

Cerddi gwerinwr diwylliedig a geir yn y gyfrol a dylid ei chroesawu'n gynnes.

(1) 'Cerddi O Alon Jones',
(Cyhoeddiadau Mei).

EGJ

COLOFN Shân Emlyn

Erbyn y daw'r golofn hon allan o'r Wasg mi fyddai'n gorweddian yng ngwres tanbaid un o ynysoedd gwlad Groeg. Wel na, a bod yn onest mi fydda'i siwr o fod yn llechu dan "ganghennau palmwydd clyd" yn cysgodi oddi wrth yr haul - nid nad wyf i yn hoff o'r haul cofiwch, ond bod yr haul wedi penderfynu er pan welodd fi gynta 'risedd mai ei ddyletswydd tuag ataf yw fy ffrio'n grimp a chodi rhyw frech fân ar bob darn o groen y gall gael gafael arno! Pam yn enw popeth dewis mynd i wlad grasboeth medda chi?

Yn un peth, rwyf yn dotio ar yr ynysoedd hyn, ac mae 'na rywbeth croes yn fy natur i. Nid wyf yn fodlon rhoi i mewn i'r haul a gadael iddo nacau imi fynd i wledydd poeth. Er fy mod yn greadures sy'n hoff iawn o gysur a moethau'r byd hwn mae 'na ryw atyniad rhyfedd ynof at y cyntefig. Gwendid yn bendifaddau yw fy mod yn cael pleser o weld pobol yn crafu byw o dir sâl anhydrin, o weld gwagedd yn teithio dan ei pwn ar gefn mul i'r farchnad ac o weld tai tlawd gwngalochog heb yr un cyfleustra ar eu cyfyl. Casaf fy llygaid i'r tlodi a'i ddyrchafu a dweud wrthyf fy hun mai symylrwydd bywyd sy'n apelio ataf. Tydy hi'n syndod pa mor anghyson y gall un fod?

Nid dyma'r tro cynta inni fel teulu ymweld ag ynysoedd Groeg; am wahanol resymau rydym ein pedwar yn teimlo bod 'na hud rhyfedd yn yr ynysoedd hyn. Mae 'na rywbeth yno sydd at ddant

pob un ohonom. Caiff Owen gerdded ar ei ben ei hun yn yr unigeddau am oriau heb i neb sôn wrtho am undeb a iaith a sianel o hyd. Caiff logi car bach a'i yrru'n rhy gyflym ar hyd ffyrdd caregog a llychlyd yr ynys - bod yn gwbwl anghyfrifol a'r ffaith nad y fo fydd raid prynu teiars newydd i'r car yn rhoi pleser pechadurus iddo!

Cael lliw haul fydd nod penna Elin a Mari, nofio digon a chael celc bach i'w wario yn y siopau crefftiau yn y dre. Mi fyddwn i gyd yn darllen llawer ac yn gwneud pethau diarth i ni fel chwarae cardiau am oriau - cyfle prin i hamddena efo'n gilydd. Hyd yn oed os na fydd y sgwrs yn ysbrydoledig drwy'r amser, ac rwy'n sicir y bydd 'na gyfnodau pan fydd pawb yn dawedog a diddeud - mae'n braf cael cyfle i fod felly efo'n gilydd hefyd.

Drwy gydol y dydd fe wnawn y tro ar fwyta ffrwythau ond bydd edrych ymlaen a thrafod drwy'r dydd i ba Daverna yr awn am wled bob nos. Yno byddwn yn mentro ar y dwsin prin o eiriau Groeg sydd gennym rhag i neb feddwl mai Saeson ffroenuchel ydym sy'n disgwyl i bob cenedl fod yn gynefin â'u hiaith. Rhaid i mi, cyn mynd y tro yma, ffeindio be ydy'r gair Groeg am Gymru yn lle ein bod yn gorfod gwneud map di-siap o Brydain - rhoi croes drwy'r Alban a Lloegr ac ysgwyd ein pennau ac yno wenu fel giât a phwyntio bys at Gymru ddi-siap wrth geisio esbonio be yda ni!

Wel dyma i chi lith a'i lond o ddim. Dyma o'r darllenydd ond mae rhoi fy meddyliau ar bapur wedi fy sbriwsio, a gwneud imi sylweddoli fy mod yn edrych ymlaen yn o arw at y gwyliau a'u bod nhw wrth y drws.

AMGUEDDFA GENEDLAETHOL CYMRU

Roedd Alan Sorrell (1904-1974) yn artist amryddawn ac yn feistr ar nifer o wahanol gyfryngau. Ond efallai mai am ei adluniadau dyfrliw o henebion a safleoedd archaeolegol y mae'n fwyaf adnabyddus heddiw. I'r rhan honno o'i waith, ac i'w gysylltiadau â Chymru yn bennaf, y canolbwyntia'r arddangosfa 'Alan Sorrell: Ail-greu'r Gorffennol' a welir yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru tan 20 Gorffennaf 1980.

Canolbwyntiodd yn fwyaf arbennig ar y cyfnod Canol Oesol - sef cestyll ac abatai Cymru. Y mae'r rhain yn beintiadau ysblennydd a rhoddant i'r lleygwr olwg newydd ar adfeilion cyfarwydd ac enwog Cymru.

Yn yr arddangosfa ceir peintiadau o safleoedd cynnar fel Tinkinswood, Sain Nicolas, De Morgannwg; Pond Cairn, Y Coety, Morgannwg Ganol a Llanmelyn, Gwent. Yn ail, safleoedd Rhufeinig yng Nghaerllion-ar-Wysg a Chaerwent, Gwent; Segontium, Caernarfon a Llanilltud Fawr, De Morgannwg. Ac yn drydydd cestyll, ynysys ac abatai.



Llan, Amgueddfa Genedlaethol Cymru Tyndyrn
Cyhoeddodd yr Amgueddfa ddau gatalog - Alan Sorrell:
Ail-greu'r Gorffennol, a'r fersiwn Saesneg, Alan
Sorrell: Early Wales Re-created, ar gyfer yr
arddangosfa. Cynhwysir ynddynt luniau o bob
gwaith dyfrliw Sorrell a welir yn yr arddangosfa.
Y pris yw £1.50 yr un (£1.85 drwy'r post).

Gweithgarwch yng Ngwent

Daeth cryn drigain o bobl ynghyd brynhawn Sadwrn, Mai 17eg, i wrando ar Mrs. Mair Elvet Thomas, yn darlithio ar "Agweddau ar Weithgarwch Llenyddol Gwent yn y Ganrif Ddiwethaf". Dyna'r testun a ddewisodd Mrs. Thomas ar gyfer Darlith Goffa Islwyn, 1980, a threfnwyd yr achlysur gan yr Athro Ceri Lewis ar ran Adran y Gymraeg, Coleg y Brifysgol, Caerdydd.

Cafwyd darlith i'w chofio; cyfraniad ysgolheigaidd gan un yn llawn brwdfrydedd dros ei phwnc. Yn wir, y cyfuniad hwn o oleuni a gwres a afaelodd yn arbennig yn y gwrandawyr. Pwysleisiwyd yn neilltuoel gyfraniad nodedig Cymdeithas Cymreigyddion Y Fenni (yn bennaf trwy gyfrwng cyfres o ddeg o eisteddfodau a gynhaliwyd dan ei nawdd rhwng 1834 a 1853) i ysgolheictod a diwylliant Cymru, a rhoddwyd lle amlwg, yn y cyswilt hwn, i waith gwyr fel Carnhuanawc (y Parchedig Thomas Price) a Thomas Stephens. Nid anghofwyd chwaith am ymdrechion clodwiw rhai prinach eu cyfleusterau fel Gwilym Ildid,

Aneurin Fardd ac Ieuan Ddu. A chysylltwyd y traethodwyr, y beirdd a'r cerddorion hyn, a'u tebyg, â nawdd teuluoedd mawrion Gwent a Morgannwg - Morganiaid Tredegar, Williamsiaid Aberpergwm Guests Dowlais, Rolls Yr Hendre, ac, wrth gwrs, Arglwyddes Llanofar a'i gŵr, Syr Benjamin Hall. Yn ychwanegol at eu cefnogaeth ariannol a chymdeithasol, tynnwyd sylw arbennig at gysylltiad rhai o'r noddwyr hyn â'r Welsh MSS Society, a fu'n gyfrifol am gyhoeddi rhai llawysgrifau Cymraeg pwysig. Nodwyd, hefyd, gysylltiad Eisteddfodau'r Fenni ac ysgolheictod Ewropeaidd - tarddiad a lladaeniad y Chwedlau Arthuraidd a chyd-berthynas yr ieithoedd Celtaidd ag ieithoedd eraill.

Wedi'r ddarlith cafwyd cyfle am sgwrs uwch paned o de a lluniaeth ysgafn. Bellach gellir edrych ymlaen at weld y ddarlith wedi ei chyhoeddi a bydd yn ychwanegiad tra derbynol i gyfrol ragorol Mrs. Thomas, "Afiath yng Ngwent".

Darlledu Caerdydd

Mae Darlledu Caerdydd yn para i brifio, ac o Orffennaf 10fed ymlaen, bydd yr oriau Cymraeg yn ymestyn o hanner awr i awr a hanner - a chyda'r ychwanegiad, gobeithir dwyn mwy o sylwedd i'r rhaglenni.

Byddan nhw'n dechrau am wyth ac yn gorffen am hanner awr wedi naw - o nos Lun i nos Wener. Awr gerdd fydd hi o wyth i naw. Neilltuir dwy noson i gerdd-oriaeth boblogaidd (pop), noson arall i ganu gwerin a noson arall wedyn i ganu ysgafn. Ceir un noson hefyd o ganu corawl, penillion, clasurol ac ati.

Daw rhaglenni llafar am naw, ac er nad yw'r daflen amser wedi'i threfnu hyd yn hyn, gwyddom y bydd rhaglen gylchgrawn bob nos Lun, a rhaglen i ddysgwyr bob nos Fawrth. Bwriedir trefnu hefyd noson lenyddol ei naws, noson grefyddol a noson atgofus o dremio'n ôl.

Ac fe ellwch chi helpu. Gan mai Radio'r Bobl Leol yw Radio Caerdydd, maen nhw'n dibynnu arnoch chi. Os oes gennych unrhyw syniadau, cysylltwch â Vaughan Roderick yn DC.

YR YMGYRCH DELEDU

Ar y 29 Mai o flaen Llys Ynadon Caerdydd, ymddangosodd tri pherson ar gyhuddiad o beidio â thalu am drwydded deledu, sef y Parchedig Geraint Tudur, Mr. Gwyn Lewis Davies, a Mr. Arthur Evans. Mab y Dr. R. Tudur Jones o Coleg Prifysgol Bangor, a Gweinidog Capel Ebeneser yw'r Parchedig Geraint Tudur. Mab yr enwog Lewis Davies, Y Cymer, a chyn-brif-athro Ysgol Ramadeg Tywyn yw Mr. Gwyn Lewis Davies, sy'n aelod o Bwyllgor Y Dinesydd ac yn aelod yn Ebeneser. Syrfewr Siartredig, a weithiodd yn Affrica, Arabia Sawdi a Jamaica yw Mr. Arthur Evans, sy'n aelod yng Nghapel y Crwys. Mab ydyw i Mrs. Mai Evans o Lanfyllin a ymladdodd yn llwyddiannus dro yn ôl am bapur y dreth yn Gymraeg, a brawd i Mrs. Eleri Rogers o Landaf, cyn-athrawes

Mae hi'n Steddfod

Os ych chi'n cadw dyddiadur, cofiwch roi cylch coch o gwmpas Tachwedd 9, 1980. Nodwch o dan y cylch, "Ma rhaid i fi fynd i'r steddfod yn Neuadd Rhiwbeina - Steddfod Caerdydd".



Saesneg yn Rhydfelen a Llanhari, a fydd, hithau, o flaen y llys am yr un 'drosedd' ag yntau ar yr llog o Orffennaf.

Dirwywyd y Parchedig Geraint

Mae'r trefniadau wedi symud yn bell erbyn hyn, ac fe welwch wybodaeth am rai o'r prif gystadlaethau yn y rhifyn hwn. Mae gyda ni feirniaid o fri - rhai o safon y cystadleuwyr! Cofiwch ddod!

Tudur i £50 a Mrs Lewis Davies a Mr. Arthur Evans i £40 yr un. Cadeirydd y Paine yn yr achos hwn, a gynhaliwyd yn Gymraeg, oedd Mr. William Watkins, yntau yn aelod yng Nghapel y Crwys.

Anfonwch eitemau i'r Calendr at Mallt Anderson, 158, Ffordd Ddwyreiniol y Llyn, Parc y Rhath (Tel. 753695), gydag enwau, dyddiad, ac amser, etc.

ELWYN THOMAS

Bydd unrhyw un a drigai ym mhentref Rhiwbina yn ystod y deng mlynedd o ganol y pumdegau i ganol y chwedegau yn gyfarwydd â'r croeso Cymraeg oedd i'w gael yn y siop bapur a losin fach ger y bont ar ganol y pentref - Siop Elwyn. Ddiwedd mis Gorffennaf bydd y cymeriad gwreiddiol hwn - Elwyn Thomas - yn ymdeol o'i swydd bresennol fel Prif Glerc Gwasg Prifysgol Cymru. Dechreuodd weithio hanner can mlynedd yn ol ac ar wahan i'r cyfnod y bu'n cadw'r siop treuliodd y rhan fwyaf o'r cyfnod hwn mewn swyddi yn y byd argraffu a chyhoeddi Cymraeg.

- Elwyn Thomas -

Prif Glerc

Gwasg

Prifysgol Cymru



Brodor o Langwili yw Elwyn a dechreuodd weithio i gwmni Spurrells, Caerfyrddin ym 1930. Bu'n aelod o staff y cwmni hwn am un mlynedd ar bymtheg gan dderbyn hyfforddiant fel cysodydd i ddechrau cyn symud ymlaen i oruchwylio cyfrifon y cwmni. Cofia yrru i lawr o bentref Glangwili i Gaerfyrddin ar gefn ei feic gyda'r nos i sicrhau fod canhwyllau yn dal ynghyn yn un o ystafelloedd gweithdy Spurrells lle 'roedd dalennau lliw ar gyfer cyfres Llyfrau Darllen Gwasg y Brifysgol yn sychu. Defnyddid y canhwyllau i gadw tymheredd yr ystafell yn wastad ac arbed y papur arbennig rhag ymestyn. Yn rhyfedd iawn roedd cysylltiad hefyd rhwng Gwasg y Brifysgol a'r gyfrol gyntaf i Elwyn ei chysodi o glawr i glawr, sef Llyfr Plygain 1612 - adargraffiad o'r unig gopi y gwyddys amdano, sef yr un a geir yn Llyfrgell Huntington, California. Defnyddiodd gopi llun o'r testun gwreiddiol ar gyfer y gwaith cysodi.

Yn ôl tystiolaeth Elwyn ei hun roedd bywyd cymdeithasol pentref Glangwili yn fywyd hynod o lawn ac yma y cafodd ei drwytho yn y 'pethe'. Daeth o dan ddylanwad y Parch Simon B. Jones wrth fynychu ei ysgol nos farddoniaeth yn festri capel Peniel. Wedi perffeithio'i grefft fel telynegwr enillodd Elwyn nifer o gadeiriau yn eisteddfodau lleol Llangadog, Cross Hands, Caerfyrddin a Myddfai. Yn ystod seremoni'r cadeirio yn Eisteddfod Llangadog lle'r enillodd ei gadair gyntaf clywyd y tren olaf yn mynd am Gaerfyrddin o'r orsaf leol. O ganlyniad bu'n rhaid i Elwyn a'i gyfaill gerdded dros ugain milltir yn y tywyllwch. Tua hanner ffordd adref dyma'i gyfaill yn troi ato a dweud, 'O'n i'n gwybod na ddelai lot o

ddaioni o'r barddoni cythraul 'ma!'

Cafodd dipyn o hwyl fel actor hefyd - hyn eto o dan gyfarwyddyd y Parch Simon B. Jones - gan gystadlu ac ennill yn yr Eisteddfod Genedlaethol. Yn Eisteddfod Genedlaethol Aberpennar bu cwmni'r pentref yn perfformio drama J.O. Pfransis, Y Potsier. Roedd trideg-tri o gwmniau yn cystadlu yn y rhagbrofion a daeth Cyman i festri capel Peniel, Glangwili i feirniadu'r Potsier fel rhan o'r rhagbrofion. Chwaraeai Elwyn ran Didi Bach Dwl. Wrth draddodi ei feirniadaeth dywedodd Cyman mai dyma'r tro cyntaf iddo weld y cymeriad a chwaraeai ran Didi Bach Dwl yn trin ger potsier fel potsier. Bu'n rhaid iddo aros am rai munudau cyn medru gorffen ei feirniadaeth gan fod y gynulleidfa yn chwerthin cymaint. Ni wyddai Cyman fod Elwyn Thomas wedi ennill tipyn o enw iddo'i hun fel arch-botsier y fro! Hyd yn oed ar ddiwrnod eu perfformiad yn yr Eisteddfod Genedlaethol roedd gan y cwmni frithyllod ffres (ac ambell samwn) o'r afon ar y llwyfan!

Yn ystod y cyfnod y bu'n gweithio yng Nghaerfyrddin y priododd Elwyn nyrs ifanc o'r dref a fu'n gweithio yn Llundain, sef Gladys. Ym 1946 gadawodd y ddau gyffiniau Caerfyrddin i ddod i Gaerdydd, gan ymgartrefu am gyfnod ger Parc y Rhath cyn symud i fyw ym Mhenydrif, Rhiwbina. Cafodd Elwyn swydd Prif Glerc i ddau gwmni cyhoeddi Hughes a'i Fab, Stryd y Porth - Hughes a'i Fab a'r Educational Publishing Company - ac aeth Gladys i weinyddu yn Ysbyty'r Eglwys Newydd.

Ym 1956 dychwelodd cwmni Hughes a'i Fab i'r Gogledd a phenderfynodd Elwyn brynu'r siop fach yn Rhiwbina. Wrth weld yr arwydd 'Elwyn's' yn cael ei godi o flaen y siop taerai perchenog siop gyferbyn mai Arabiaid oedd wedi prynu'r lle! Ond 'Y Siop Gymraeg' oedd enw trigolion y pentref ar siop Elwyn a thystia ei pherchennog fod tua dau gant o Gymry'n galw yno'n gyson erbyn iddo roi'r gorau i'r fusnes ym 1967. Y flwyddyn honno dychwelodd Elwyn i'r byd cyhoeddi pan dderbyniodd

O'R TABERNAACL

Cafodd plant yr Ysgol Sul brynhawn diddorol iawn Sadwrn, Mai 17, pan aethant ar daith gerdded o Dongwynlais i Gaerdydd gan ddilyn yr hen gamlas. Ac ar ddiwedd y daith - ffa a sgloedion yn y Tab! Arolygwr yr Ysgol Sul Mr. Ricky Carter oedd trefnydd y daith.

Cafwyd gwasanaeth hyfryd nos Sul, Mai 18, a'r gerddorfa gyfan yn y set fawr yn cyfeillio i'r emynau o dan arweiniad Mr. Arwel Hughes. Chwaraeodd Heather Jones unawd ar y baswn yn ystod y casgliad.

Nos Iau, Mai 22, mewn gwasanaeth bedydd, derbyniwyd Mr. Edgar Brown yn llawn aelod o'r Tabernacl. Mae Mr. Brown wedi bod yn mynychu'r cyfarfodydd ers rhai blynedd, yn aelod ffyddlon o'r dosbarth Ysgol Sul ac yn hollol gartrefol yn ein mysg.

Bore Sul, Mehefin 1af, bore Sul y plant oedd hi yn wir ystyr y gair a chafwyd adnodau gan lu o blant ac yna yr ordinhad hyfryd o gyflwyno efeilliaid sef Alun Llyr a Rhys Llwyd Baker. Yna Mr. Huw Thomas oedd yn siarad â'r plant am gydweithio.

Bore Sadwrn, Mehefin 7fed, aeth plant yr Ysgol Sul i Borthcawl am y dydd.

Cydymdeimlwn yn ddiwyll iawn â'r Gweinidog ar gollu ohono ei frawd hynaf ar ôl cystudd blin.

YN EISIAU

Tŷ neu fflat wedi ei ddodrefnu, ar gyfer pâr priod proffesiynol am gyfnod o dua blwyddyn - o ganol mis Awst ymlaen. (Dim cwn na phlant).
Cysyllter â: Gerallt D. Nash, 'Gorwel',
35 Stryd Fawr,
TYDDEWI, Dyfed.

swydd weinyddol yng Ngwasg Prifysgol Cymru. Roedd cartref y Wasg yng Nghofrestrfa'r Brifysgol ym Mharc Cathays yn y dyddiau hynny a symudodd Elwyn gyda'r Wasg i Dy Merthyr yn ardal y dociau ac wedyn i'w chartref presennol yn Stryd Gwennyth yn ardal Cathays. Gellir dweud mai 'Siop Elwyn' yw'r siop siarad dros banded amser te yn y Wasg a gwelwn eisiau ei gwmniaeth cynnes a'i ffraethineb gwreiddiol ar ôl iddo ymdeol, er yr hyderwn y bydd yn galw heibio o dro i dro. Dymunwn yn dda i'r bonheddw'r rhadlon hwn (a'i wraig, wrth gwr) wrth ymdeol, gan obeithio y caiff iechyd da i arddio, darllen a meistrol'i'r gynghanedd.

Alun Treharne.